Rhaglen Graidd Cyswllt
Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG)

# Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd ac Effaith 2017– 2018

SchoolBeat.cymru

## Heddlu'n diogelu plant Cymru drwy addysg atal troseddu

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SchoolBeat.cymru

# Cyflwyniad

Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG) yn unigryw gan ei bod yn cynnig addysg atal troseddau a gweithgareddau plismona cefnogol i bob plentyn ysgol yng Nghymru.

Mae tîm o 65 o swyddogion yr heddlu a benodwyd yn arbennig o'r enw Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) o'r pedwar heddlu yng Nghymru wedi gweithio ochr yn ochr ag athrawon ac eraill i addysgu a diogelu plant.

Rydym wedi llunio ffilm fer yn crynhoi ein cyflawniadau gyda chymorth plant o Ysgol Nantgaredig, Caerfyrddin. Gallwch weld y ffilm ar www.schoolbeat.cymru.

Mae'r SHCY yn **gyfrannwr allweddol at fywyd yr ysgol** mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

Yn 2017/2018, cyflwynwyd **18,388** o wersi i blant rhwng 5 ac 16 oed. Yn ogystal, llwyddwyd i atal **5,572** o blant rhag ymuno â'r system cyfiawnder troseddol drwy ddefnyddio'r polisi Trechu Troseddau mewn Ysgolion.

Mae ein Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) wedi cyflwyno gwersi a chyflwyniadau byr ar bynciau megis diogelwch ar y rhyngrwyd, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, troseddau cyllyll ac arfau, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bwlio.

Mae'r holl SHCY a'r staff wedi gweithio'n galed i sicrhau y caiff nodau'r Rhaglen eu cyflawni ac i gadw pobl ifanc yn ddiogel.

Mae nodau'r Rhaglen fel a ganlyn:

**(a)** **addysgu** plant a phobl ifanc ynglŷn â'r niwed y gall camddefnyddio sylweddau ei achosi i'w hiechyd, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach

**(b)** hyrwyddo egwyddorion **dinasyddiaeth gadarnhaol** drwy gyfrwng addysg

**(c)** gostwng **lefelau trosedd ac anrhefn** yn ein cymunedau ifanc

Mae'r plant a'r bobl ifanc wedi cael eu cefnogi, eu hamddiffyn a'u haddysgu ac wedi cael gwybod ffeithiau cywir wedi'u cyflwyno mewn ffordd fywiog a diddorol. Rhoddwyd **cyngor** a **strategaethau** iddynt i'w helpu i ymdrin â sefyllfaoedd heriol ac weithiau beryglus. Fe'u **hatgyfeiriwyd** hefyd at help a chyngor gan asiantaethau a sefydliadau cenedlaethol a lleol.

Cefnogir y Rhaglen gan www.schoolbeat.org. Mae'r wefan yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu adnoddau a gwybodaeth gyfredol a chywir i'r SHCY, athrawon ac addysgwyr, dysgwyr a rhieni fel ei gilydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd dros 61,000 o ymweliadau a 377,000 o argraffiadau â SchoolBeat.org. Mae gan ein cyfrifon Twitter ryw **7,000 o ddilynwyr!** Cafwyd cyfanswm lefel gwelededd o ryw 688,000 o argraffiadau ar gyfer ein trydariadau.

Bu rôl llywodraethu yn hanfodol er mwyn cynnal ffocws clir. Mae cefnogaeth y grŵp llywio tuag at y Rhaglen a'i datblygiad parhaus wedi sicrhau y llwyddwyd i fodloni telerau ac amodau cyllid grant Llywodraeth Cymru.

## Ein Gweledigaeth

Yr heddlu **yn diogelu plant Cymru** drwy addysg atal troseddau.

## Ein Cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw diogelu, hybu lles ac atal pobl ifanc rhag mynd ynghlwm â'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn o ganlyniad i **bartneriaeth** unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, y pedwar heddlu yng Nghymru ac ysgolion.

Mae atal troseddau a chyflawniadau diogelu yn galluogi plant a phobl ifanc i **feithrin cydberthynas â swyddog eu hysgol** ac i gael negeseuon cywir, corfforaethol a chredadwy sy'n eu paratoi i wneud **dewisiadau hyddysg**.

## Ein Heffaith

Caiff plant a phobl ifanc mewn ysgolion ledled Cymru eu galluogi i wneud y canlynol:

- gwneud penderfyniadau hyddysg am eu hymddygiad
- meithrin cydberthnasau cadarnhaol â Swyddogion yr Heddlu
- cadw'n ddiogel
- datblygu cadernid personol
- cael help a chyngor gan asiantaethau a gwasanaethau cymorth.

Caiff yr holl weithgarwch hwn ei fesur yn rheolaidd drwy gofnodi nifer y canlynol:

- y gwersi a gyflwynwyd
- digwyddiadau a ddatryswyd gan ddefnyddio'r Protocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion
- y camau gweithredu adferol
- yr atgyfeiriadau diogelu a gyflwynwyd gan y SHCY.

Rydym hefyd wedi cynnal gwerthusiad o'r gwasanaeth a ddarperir gennym, gan ganolbwyntio ar **wrando ar ddysgwyr** yn ein hysgolion ledled Cymru. Gwnaethom hyn yn bennaf drwy eu cynnwys mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau, gan ofyn iddynt nodi beth sy'n dda am yr hyn a sut y gallem wella.

### Gwerthusiad Mewnol o'r Gwasanaeth a Ddarperir, Mehefin 2018

Nododd dysgwyr gynnydd sylweddol yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gyfraith a gwybodaeth allweddol i'w galluogi i gadw'n ddiogel. Gwnaethant hefyd nodi newid yn eu hagwedd a'u hymddygiad a fyddai'n effeithio arnynt yn y dyfodol.

Nododd dysgwyr fod ganddynt fwy o hyder ac ymddiriedaeth yn yr Heddlu.

Cyfeiriodd un dysgwr at agwedd bwysig ar ymyrraeth gynnar ac atal gan nodi bod cael SHCY mewn ysgolion yn ***"Lleihau gwaith yr heddlu yn yr hirdymor am ei fod yn fuddsoddiad yn ein dyfodol a'r heddlu"***. Ystyriwyd bod cadw SHCY mewn ysgolion a meithrin cydberthnasau a modelau rôl cadarnhaol yn elfennau hanfodol o fywyd yr ysgol.

Roedd rhai dysgwyr o'r farn bod angen i SHCY dreulio mwy o amser yn eu hysgolion ac y gellid datblygu pynciau pellach, gan gynnwys adnabod unigolion agored i niwed, iechyd meddwl, partïon tai a gollwng sbwriel!

Mae'r SHCY yn darparu gwasanaeth unigryw i ysgolion sy'n cyfrannu at atal troseddau drwy addysgu a diogelu plant Cymru.



## Cyflwyno Gwersi: Cymru a fesul Ardaloedd yr Heddlu


| Cymru | DP | GW | GC | DC |
|---|---|---|---|---|
| 18,388 | 3,668 | 3,394 | 5,583 | 5,743 |

Yn ogystal â'r gwersi, mae SHCY hefyd yn gwneud cyflwyniadau a gwasanaethau byr. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe'u cyflwynwyd i gefnogi digwyddiadau cenedlaethol allweddol megis Wythnos Gwrth-fwlio, Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, wythnosau i godi Ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Throseddau Casineb, yn ogystal ag mewn ymateb i faterion lleol sy'n gysylltiedig â bygythiadau, risg a niwed.

O ganlyniad, gallwn nodi yn hyderus ein bod wedi cyrraedd ymhell dros **hanner miliwn o blant**.

## Cyfanswm y Disgyblion y Daethpwyd i Gysylltiad â Nhw: Cymru a fesul Ardaloedd yr Heddlu

| Cymru | DP | GW | GC | DC |
|---|---|---|---|---|
| 591,702 | 98,074 | 119,232 | 152,226 | 222,170 |



# Cyflawni ein nodau

## Sut rydym wedi helpu i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Deddf Cymru 2015)

Rydym wedi cyflwyno **9,780** o wersi diogelu ac wedi cyrraedd **240,123** o ddysgwyr. Mae'r gwersi yn dilyn cwricwlwm troellog ac wedi'u cynllunio ar gyfer dysgwyr rhwng 5 ac 16 oed. Maent wedi canolbwyntio ar ddeall y materion, nodi arwyddion o bŵer a rheolaeth, aros yn ddiogel, gwneud penderfyniadau cadarnhaol a sicrhau bod dysgwyr **yn gwybod at bwy y gallant droi i gael help**.

## Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos sut mae SHCY wedi helpu pobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol:

**ASTUDIAETH ACHOS 1** *"Rwyf wedi cael boddhad o gyflwyno'r wers "Ffrind neu Elyn" (CA2). Yn ddiweddar, o ganlyniad uniongyrchol i gyflwyno'r wers yn un o'm hysgolion cynradd, cefais wybod fod plentyn wedi penderfynu datgelu achos o gam-drin i'w riant. Mae ymchwiliad bellach yn mynd rhagddo. Mae cael effaith gadarnhaol ar fywyd un plentyn yn unig yn golygu bod y gwaith yn werth chweil."*

*"Yr wythnos hon, daeth disgybl blwyddyn 11 a'i rieni i'w gorsaf heddlu leol. Roedd y rhieni wedi cynhyrfu ac i ddechrau, nid oedd y bachgen yn awyddus i siarad. Roedd ei rieni yn pryderu'n arw am achos o fwlio a oedd wedi bod yn digwydd ers cryn amser yn yr ysgol, ac roedd ysgwydd y bachgen wedi cleisio o ganlyniad i'r bwlio hwnnw.*

*Ymhen amser, daeth i deimlo'n fwy cyfforddus yn siarad â mi. Datgelodd achos hanesyddol o drais rhywiol a ddigwyddodd dwy flynedd yn gynt yn nhoiledau'r ysgol. Gofynnodd am gael siarad â mi ar ei ben ei hun gan nad oedd ei rieni yn ymwybodol o'r gydberthynas rhyngddo â'r troseddwr honedig na'i rywioldeb.*

*Ar ôl i ni orffen siarad, roedd yn hapusach a phenderfynodd ddweud popeth wrth ei rieni. Dywedais wrthynt am broses yr heddlu gan eu sicrhau y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ysgol a fyddai'n rhoi camau diogelu ar waith.*

*Heb wybod am rôl yr SHCY, mae'n anhebygol y byddai'r bachgen wedi siarad â mi o gwbl. Gwnaeth hynny am ei fod yn fy adnabod ac yn teimlo'n gyfforddus, roedd yn ymddiried ynof ac yn gallu bod yn onest er mwyn datgelu beth a ddigwyddodd.*

*Wedyn, siaradodd â'i rieni a dychwelodd i'r ysgol ar ôl cael tawelwch meddwl bod camau i'w ddiogelu wedi'u rhoi ar waith yn yr ysgol. Mae ymchwiliad yr heddlu yn mynd rhagddo."*

## Sut rydym wedi mynd i'r afael â Cham-drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant



Rydym wedi sicrhau bod y SHCY wedi'u hyfforddi er mwyn iddynt allu rhyngweithio â phlant a phobl ifanc mewn ffordd sensitif a phriodol. O ganlyniad i'r hyfforddiant a gânt a'u profiad fel swyddogion yr heddlu, maent wedi llwyddo i amddiffyn **1,256** o ddysgwyr drwy wneud atgyfeiriadau diogelu uniongyrchol, sef cynnydd o 42% o gymharu â ffigur y llynedd.

Cyflwynwyd ein gwers benodol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yng Nghyfnod Allweddol 3, sef Twyll Peryglus, lle y caiff proses paratoi at bwrpas rhyw ('grooming' yn Saesneg) ei disgrifio ac y caiff strategaethau eu cyflwyno ar gyfer cadw'n ddiogel, i **22,375** o ddysgwyr. Yn aml, caiff achosion o niwed eu datgelu o ganlyniad i'r wers.

**ASTUDIAETH ACHOS 2** *"Yn dilyn gwers Edrychwch Pwy sy'n Siarad, soniodd ffrindiau pryderus fod eu ffrind ym Mlwyddyn 9 wedi bod yn cysylltu â dyn 'nad oedd yn ei adnabod' a'i bod wedi trefnu i'w gyfarfod yn ystod gwyliau'r Pasg. Siaradais â'r ferch a chadarnhaodd ei bod yn mynd i'w gyfarfod. Roedd yn argyhoeddedig eu bod mewn perthynas a'i bod yn ymddiried ynddo. Ar ôl ymchwilio, daeth i'r amlwg mai dyn hŷn oedd yr unigolyn hwn, a bod nifer o gwynion wedi'u gwneud mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn merched ifanc. Bellach mae'r rhieni wedi cael gwybod am y cyswllt ar-lein ac mae ymchwiliad i'w weithgarwch rhywiol â merched ifanc yn parhau. Llwyddwyd i gadw'r ferch yn ddiogel ac nid aeth i gyfarfod â'r dyn."*

**ASTUDIAETH ACHOS 3** *"Roedd heddlu o ardal arall yn ymchwilio i ddyn 42 oed a oedd wedi bod yn anfon lluniau o'i bidyn at ferched ifanc ledled y wlad.*

*Roedd dyn wedi cysylltu â thua 150 o ferched drwy'r cyfryngau cymdeithasol gan nodi mai bachgen 17 oed ydoedd. Mewn gwirionedd, roedd yn 42 oed. Anfonodd luniau o'i bidyn atynt. Gofynnodd i'r merched anfon lluniau ohonynt eu hunain ato. Anfonodd un ferch lun ohoni yn gwisgo bra. Awgrymodd y dyn y dylent gyfarfod.*

*Nid aeth y ferch. Yn ddiweddarach, mewn cyfweliad gyda'r heddlu, gofynnwyd iddi pam nad aeth i gyfarfod â'r dyn. Ymatebodd drwy ddweud, 'Dangosodd Swyddog Cyswllt yr Ysgol fideo yn yr ysgol o rywbeth tebyg a wnaeth i mi feddwl, dyw hyn ddim yn iawn.' Enw'r wers oedd Edrychwch Pwy sy'n Siarad."*

**ASTUDIAETH ACHOS 4** *"Roedd y person ifanc mewn gwers Twyll Peryglus (CA3). Roeddwn yn trafod y broses paratoi at bwrpas rhyw gyda'r dosbarth ac yn egluro'r term Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant iddynt. Cynhyrfodd hyn un o'r bobl ifanc, ac o ganlyniad, gadawodd yr ystafell. Trafodais hyn gydag aelod o'r staff ac yn ddiweddarach gyda'r athro diogelu. Roedd y person ifanc wedi datgelu achos hanesyddol o gam-drin rhywiol. Rhoddwyd gwybod i'r heddlu yn ffurfiol am yr achos a chynhaliwyd ymchwiliad."*

Mae natur y gydberthynas arbennig rhwng y SHCY a'u hysgolion wedi eu galluogi i ymdrin â rhai **digwyddiadau sensitif** iawn. Isod, nodir sut na chafodd plentyn ag anghenion dysgu ei ystyried yn droseddwr am ei weithredoedd:

**ASTUDIAETH ACHOS 5** *"Gwnaeth plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol gyhuddiad yn erbyn plentyn arall yn yr un ganolfan gynnydd. Roedd y cyhuddiad yn ymwneud â digwyddiad rhywiol. Rhoddodd y rhiant wybod i Swyddog Amddiffyn Plant yr ysgol am y digwyddiad, a gyfeiriodd yr achos at y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu. Roeddwn yn gweithredu fel cyfryngwr rhwng yr Heddlu a'r ysgol ac yn gallu cyflwyno adroddiad am anghenion y ddau blentyn dan sylw. O ganlyniad, ni chafodd y plentyn ei erlyn am drosedd lle nad oedd ganddo unrhyw ddealltwriaeth o oblygiadau troseddol ei ymddygiad o ganlyniad i'w anghenion dysgu."*

## Sut rydym yn ymdrin â Secstio

Mae'r wers ddiogelu fwyaf poblogaidd yn cael ei chyflwyno i Gyfnod Allweddol 3. Gwers am **secstio** yw Pictiwr Peryg. Cyflwynwyd **1,131** o wersi i **28,780** o ddisgyblion 12 ac 13 oed ledled Cymru. Mae materion sy'n ymwneud â secstio hefyd yn rhan o waith Plismona Cefnogol mewn Ysgolion y SHCY.

**ASTUDIAETH ACHOS 6** *"Roedd disgybl wedi anfon llun noeth ac aeth i weld yr athro llesiant mewn ysgol gyfun leol a gysylltodd â mi ar ôl i'r disgybl roi gwybod ei fod wedi anfon llun noeth. Roedd wedi rhoi gwybod i'r swyddog amddiffyn plant hefyd. Trefnais gyfarfod â'r disgybl, y rhieni ac aelodau allweddol o'r staff. Llwyddais i gadarnhau at bwy yr anfonwyd y llun ac i egluro sut y gallwn helpu. Rhoddwyd gwybodaeth i'r disgybl a'r rhieni am y gyfraith, gan alluogi iddynt symud ymlaen."*

**ASTUDIAETH ACHOS 7** *"Dywedodd disgybl agored i niwed yr oedd ganddi fân anawsterau dysgu wrthyf ei bod wedi anfon llun ohoni hi ei hun yn ei dillad isaf at gyd-ddisgybl, fisoedd yn gynharach, ond bod defnyddiwr anhysbys ar Snapchat bellach yn ei blacmelio i anfon llun noeth ohoni hi ei hun ato neu y byddai'n rhyddhau'r llun cyntaf ohoni ar-lein ac yn ei anfon at ei theulu. Roedd diogelwch y ferch yn hollbwysig felly euthum ati (SHCY) i gwblhau'r gwaith papur diogelu. Gan gofio elfennau o'm hyfforddiant, cysylltais â thîm SPOC a Snapchat yn America. Anfonodd y cwmni ddisg wedi'i hamgryptio ataf a oedd yn cynnwys y negeseuon a anfonwyd gan yr unigolyn yr amheuwyd ei fod yn blacmelio'r ferch. Roedd y disg yn cynnwys delweddau anweddus o blant a'r llun a anfonwyd gan y ferch ohoni yn ei dillad isaf.*

*Yn dilyn gwaith ymchwilio, datgelodd y cyfeiriad IP fod yr unigolyn yn byw yn Nyfnaint. Trosglwyddwyd yr achos i'r Tîm Ymchwilio i Bedoffilyddion Ar-lein, Heddlu Dyfnaint a Chernyw, a arestiodd ddau frawd o'r cyfeiriad. Credir eu bod yn rhan o gadwyn o bedoffiliaid sy'n gweithredu ar y we dywyll.*

*Yn ystod y cyfnod hwn, bûm mewn cysylltiad rheolaidd â'r ferch a'i rhieni er mwyn rhoi gwybodaeth, tawelwch meddwl a chymorth iddynt.*

*Holwyd y bachgen a dderbyniodd y llun gwreiddiol, ond nid yw'n hysbys sut y cafodd y gadwyn o bedoffiliaid afael ar y llun."*

## Sut rydym yn cefnogi Seiberddiogelwch ac yn helpu i atal seiberdroseddu

Ym mis Chwefror, gwnaethom gefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, gan ymgysylltu â dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ledled Cymru a hyrwyddo'r diwrnod ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethom hefyd gynhyrchu ffilm ar y cyd â phlant o Ysgol Gynradd St Mary the Virgin Church in Wales, Caerdydd ac Ysgol Brynsierfel, Llanelli yn sôn am gadw'n ddiogel ar-lein mewn partneriaeth â MEIC a thîm Diogelwch Ar-lein Llywodraeth Cymru. Wedyn, gwahoddwyd y plant i berfformio cân SMART y Rhaglen yn y Senedd er mwyn dathlu Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel. Mwynhaodd pawb y digwyddiad!

Caiff y cyfryngau cymdeithasol weithiau eu camddefnyddio gan bobl ifanc. Isod ceir enghraifft o'r ffordd y llwyddodd camau gweithredu gan y SHCY i atal ymddygiad drwg ar-lein rhag datblygu'n weithgarwch troseddol.

**ASTUDIAETH ACHOS 8** *"Roedd rhai o'r disgyblion wedi lanlwytho fideo casineb o ferched yn siantio cymaint roeddent yn casau bachgen ifancach. Roedd rhieni'r dioddefwr yn pryderu cymaint fel eu bod am i'r merched gael eu gwahardd o'r ysgol. Fel SHCY, gofynnwyd i mi ymdrin â'r mater er mwyn sicrhau bod y merched yn deall difrifoldeb yr hyn yr oeddent wedi'i wneud.*

*Ar ôl siarad â'r merched, roedd yn amlwg eu bod yn sylweddoli eu bod wedi mynd yn rhy bell a bod eu gweithredoedd wedi achosi loes i'r dioddefwr. Derbyniwyd ganddynt eu bod mewn helynt difrifol. Heriwyd eu hymddygiad a llwyddwyd i osgoi unrhyw gamau pellach."*

Gwnaed gwaith atal hanfodol hefyd.

**ASTUDIAETH ACHOS 9** *"Roedd merch ifanc ag anghenion dysgu wedi bod mewn cysylltiad â dyn ar-lein a oedd wedi anfon lluniau anweddus ati. Roedd yn gofyn iddi hi anfon lluniau tebyg. Nid oedd wedi anfon unrhyw luniau ond roedd yn ystyried y dyn fel ffrind. Eglurais y broses paratoi at bwrpas rhyw iddi, gan sicrhau ei bod yn gwybod sut i gadw'n ddiogel. Yn ystod y sgwrs hon, datgelodd ei bod yn gwybod am ferched eraill yn yr ardal a oedd hefyd mewn cysylltiad â'r dyn hwn. O ganlyniad, enwyd 7 merch ifanc o ysgolion uwchradd lleol. Trosglwyddwyd yr holl wybodaeth hon i Uned Amddiffyn y Cyhoedd yr Heddlu ac fe'i rhannwyd â Thîm ONYX sy'n ymchwilio i achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Gofynnais i'm cyd-SHCY gysylltu â'r merched yn eu hysgolion. Roedd un o'r merched wedi cyfarfod â'r dyn ac roedd wedi prynu alcohol iddi ei yfed.*

*Mae'r dyn yn destun ymchwiliad."*



Rydym wedi datblygu gwers newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 o'r enw 'Peidiwch â Chamu at Seiber Droseddu!' gyda'n teulu heddlu yn yr Uned Seiberdroseddu Ranbarthol (RCCU). Mae'r wers, sydd wedi'i hanelu at ddisgyblion CA3, yn cynnwys ffilm wedi'i chreu'n arbennig ac fe'i cynlluniwyd i **atal dysgwyr rhag torri'r gyfraith drwy gamddefnyddio cyfrifiaduron**. Rydym yn bwriadu datblygu'r maes gwaith hwn ymhellach drwy gynnal cynadleddau Seiber Ragoriaeth i bobl ifanc.

***"Mae SchoolBeat (RhGCYCG) yn cynnig rhyngwyneb addysgol sefydledig a llwyddiannus rhwng yr heddlu a'r rhwydwaith ysgolion yng Nghymru. Mewn partneriaeth ar y cyd, comisiynwyd ffilm gennym yn amlinellu llwybr nodweddiadol i seiber droseddu i berson ifanc a gwers wedi'i chreu'n benodol i'w chyflwyno i bob disgybl yn CA3 a 4 yng Nghymru. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd sydd wedi cael y cyfle i gyflwyno'r neges benodol hon i atal seiber droseddu ymhlith ieuenctid. Mae Tarian a SchoolBeat bellach yn bartneriaid allweddol ym maes atal seiber droseddu yng Nghymru."*** DCI Paul Peters, ROCU

Mewn adolygiad cymheiriaid o Heddlu Dyfed Powys a gynhaliwyd gan Heddlu Glannau Mersi, cydnabuwyd gwerth arbennig Rhaglen SchoolBeat ym maes seiber droseddu a'i strwythur rheoli:

***"Yn ystod yr ymweliad tridiau, gwelodd tîm yr adolygiad arweinyddiaeth ardderchog o fewn meysydd busnes allweddol. Roedd perfformiad y tîm Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, yr Uned Cyfathrebu Digidol a Seiber Droseddu a'r gwaith datblygu ysgolion o dan arweiniad Bethan James yn arbennig o gryf."*** CS Gary Phillips yn adrodd yn ôl ar y DCS gan Heddlu Glannau Mersi.

**ASTUDIAETH ACHOS 10** *"Llwyddodd tri disgybl o flwyddyn 10 i hacio i mewn i rwydwaith yr ysgolion. Mae'r ysgolion yn ystyried pob opsiwn. Yn ffodus, gwnaethant siarad ag uned seiber droseddu Gwent a chawsant wybod am y fenter atgyfeirio. Dyma'n union pam ein bod wedi gwneud hyn!"*

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynwyd cyfanswm o **5,705** wersi ar y Rhyngrwyd gennym i **140,129** o ddysgwyr. Ategwyd yr holl wersi hyn gan wasanaethau i grwpiau blwyddyn a Chyfnodau Allweddol cyfan mewn ymateb i anghenion, bygythiadau, risgiau a niwed lleol.

## Sut rydym wedi cyfrannu at leihau effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Un o nodweddion allweddol ein Rhaglen yw meithrin sgiliau plant a phobl ifanc o ran gwneud dewisiadau cadarnhaol. Mae'r SHCY wedi bod yn helpu dysgwyr i feithrin yr hyder i **ymwrthod â phwysau gan gyfoedion** ac i wneud eu dewisiadau hyddysg eu hunain.

Mae ymchwil i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) wedi darparu sail tystiolaeth i weithwyr proffesiynol allu creu ymyriadau atal effeithiol. Mae **Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan wedi ymateb i** ganfyddiadau'r agenda ACE drwy ddarparu addysg atal gyffredinol ym mhob ysgol yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi cyflwyno cynllun peilot o **Weithdai Llesiant ACE** arloesol i bron i 300 o ddysgwyr blwyddyn 8 yn Ysgol Bae Baglan. Yn ystod y camau cynllunio, rhoddwyd cyfleoedd i bobl ifanc leisio barn wrth ddatblygu'r gweithdai, lle y bu nifer o asiantaethau lleol megis y Gwasanaeth Ieuenctid, Hafan Cymru ac WCADA (Welsh Centre for Action on Dependency and Abuse) yn gweithio ochr yn ochr â'r **SHCY**.

Nododd y gwerthusiad o'r Gweithdai Llesiant ein bod wedi llwyddo i fodloni'r nod, sef cyflwyno rhaglen ddysgu ddiddorol a phriodol o ran oedran ar gyfer dysgwyr blwyddyn 8 er mwyn meithrin gwydnwch a thynnu sylw at y gwasanaethau y gall pobl ifanc gael gafael arnynt er mwyn cael cymorth ychwanegol.

Nododd y bobl ifanc a gymerodd ran eu bod yn fwy hyddysg a'u bod wedi dysgu am beryglon a chanlyniadau gwahanol fathau o ymddygiad. Roeddent yn cydnabod pwysigrwydd trafod problemau ac yn nodi eu bod yn gwybod ble i fynd i gael help a chyngor ar ôl cymryd rhan yn y gweithdai.

Roedd y cyfranogwyr yn awyddus i 'rannu' beth roeddent wedi'i ddysgu ac yn awyddus i helpu eraill. Mae hyn yn gam cadarnhaol pwysig wrth ddysgu a datblygu gwydnwch.

**Rwy'n gwybod beth i'w wneud mewn sefyllfaoedd anodd.**
Disgybl

**Mae'n bwysig trafod problemau.**
Disgybl

**Rwy'n gwybod at bwy y dylwn fynd i gael help a chyngor.**
Disgybl

**Roedd llawer o'r disgyblion yn awyddus i rannu'r hyn roeddent wedi'i ddysgu. Roeddent am ei drosglwyddo i ddisgyblion eraill ac aelodau o'u teulu. Gallai hyn arwain at gyrhaeddiad ehangach na'r grŵp blwyddyn targed.**
Swyddog Cymorth Diogelwch

**Mae gwaith y SHCY o ddydd i ddydd hefyd wedi effeithio ar Iesiant.**

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos cryfder cydberthynas â pherson ifanc a'r potensial i wneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc y gallai profiadau niweidiol yn ystod plentyndod effeithio arnynt.

**ASTUDIAETH ACHOS 11** *"Rwyf wedi bod yn ymwneud â'r disgybl hwn ers ei gyfnod yn yr ysgol gynradd. Roedd y disgybl wedi dod yn gyfarwydd â mi ac yn teimlo'n gyfforddus yn fy nghwmni. I'r fath raddau fel mai dim ond â fi fel ei SHCY yr oedd yn fodlon siarad pan oedd ei deulu yn destun gwarant cyffuriau. Yn ystod y cyfweliad dilynol, datgelodd y disgybl gudd-wybodaeth a oedd yn amhrisiadwy i'r Tîm Cymdogaeth Lleol. Lluniwyd pecyn cudd-wybodaeth pellach a chyhoeddwyd mwy o warantau.*

*Nid oedd gan yr ysgol unrhyw wybodaeth flaenorol bod y bachgen yn gysylltiedig â chyffuriau, a rhoddodd gamau diogelu ar waith ar ei gyfer. Gwnaed atgyfeiriadau i asiantaethau eraill a dechreuodd y disgybl ymgysylltu a chael cymorth."*

Rydym wedi cynnig cyfleoedd i ddysgwyr **feithrin cydberthnasau** ag oedolion y nodwyd eu bod yn ymddiried ynddynt megis athro neu'r SHCY. Nododd gwaith ymchwil gan yr Athro Bellis bod **oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn werthfawr iawn i blant agored i niwed** er mwyn iddynt allu meithrin gwydnwch yn erbyn y trawma a brofwyd ganddynt yn ystod plentyndod cynnar.

***"Mae dylanwad cadarnhaol ffrindiau, oedolion y gellir ymddiried ynddynt, cymunedau ac ysgolion ar blant yn eu helpu i feithrin gwydnwch a'r gallu i oresgyn caledi difrifol sy'n gysylltiedig â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)."*** Astudiaeth Cymru o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod a Gwydnwch, 2018

**Sut rydym yn helpu i fynd i'r afael â Throseddau'n ymwneud â Chyllyll a Llinellau Cyffuriau**

Eleni, rydym wedi cyflwyno cyflwyniad newydd ar **Droseddau'n ymwneud â Chyllyll** mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru. Fe'i cyflwynwyd i 13,365 o blant a phobl ifanc mewn ardaloedd lle ceir lefelau uchel o weithgarwch troseddol. Bydd cyflwyniad newydd yn dod yn rhan o'r gyfres o adnoddau **Llinellau Cyffuriau** a Stopio a Chwilio maes o law.

**ASTUDIAETH ACHOS 12** *"Daeth disgybl i ysgol gynradd yn cario dwy gyllell gegin. Rhoddwyd cynllun diogelwch ar waith gyda'r rhieni a gofynnwyd i mi gyflwyno gwers am gyllyll a chanlyniadau troseddau. Wrth sgwrsio, sylwais fod gan y bachgen safbwyntiau hiliol yn perthyn i'r adain dde bellaf. Ar y cyd â'r ysgol, rhoddais wybod i swyddfa Prevent Gwent er mwyn helpu i ymdrin ag unrhyw faterion a rhoi arweiniad i'r fam o ran help a chymorth."*

**ASTUDIAETH ACHOS 13** *"Daeth disgybl â chyllell i'r ysgol a'i dal wrth geg disgybl arall (gan awgrymu y gallai greu gwên Chelsea). Tynnwyd llun o geg a dannedd y dioddefwr hefyd a'i roi ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn ei watwar. Gwnaeth rhieni'r dioddefwr gŵyn ffurfiol gan ofyn am sicrwydd y byddai eu plentyn yn ddiogel pe byddai'n dychwelyd i'r ysgol. Cefais fy nghynnwys yn yr achos a bûm yn cyfathrebu'n gyson ac yn rheolaidd â nhw. Yn dilyn trafodaethau â'r Pennaeth, dychwelodd y dioddefwr agored i niwed i'r ysgol a gwaharddwyd y troseddwr tra'n aros i ymchwiliad yr heddlu gael ei gwblhau. Roedd y bachgen a'i deulu yn ddiolchgar am fy nghyfraniad (SHCY)."*

**ASTUDIAETH ACHOS 14** *Roedd y bachgen yn destun gorchymyn addysg er mwyn gwella ei bresenoldeb gan ei fod yn chwarae triwant yn rheolaidd. Roedd yn aml yn ymladd ac roedd yr heddlu wedi cael eu galw i ddigwyddiadau domestig rhyngddo a'i fam. Datgelwyd fod y bachgen yn cael ei baratoi i droseddu gan aelodau o gang cyfundrefnol a chredwyd ei fod yn destun Caethwasiaeth Fodern. Fe'i arestiwyd y tu allan i ardal yr heddlu am fod ganddo gyffuriau Dosbarth B yn ei feddiant.*

*Cymerais (SHCY) y camau canlynol:*

- *trefnais gyfarfodydd ar y cyd yn yr ysgol uwchradd er mwyn rhannu gwybodaeth a phryderon a oedd gan y staff mewn perthynas â chyfranogiad y bachgen mewn Llinellau Cyffuriau.*
- *cyflwynais atgyfeiriad NRM i'r NCA a phenodwyd Eiriolwr Masnachu Plant Annibynnol o Barnardo's ar gyfer y bachgen.*
- *cysylltais â DS SPOC Ardal y Dwyrain o'r Uned Caethwasiaeth Fodern.*
- *cyflwynais adroddiad cudd-wybodaeth â blaenoriaeth uchel â chysylltiadau i Gangiau Troseddau Cyfundrefnol yng Ngogledd Cymru.*
- *cyflwynais atgyfeiriad amddiffyn plant er mwyn diogelu pob person ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r bachgen hwn.*

*Yn dilyn y camau gweithredu hyn, trefnodd y DS o'r Uned Caethwasiaeth Fodern gyfarfod strategaeth a bydd angen i mi fynd i'r cyfarfod hwnnw.*

# Gweithgareddau Plismona Cefnogol mewn Ysgolion

Mae Plismona Cefnogol wedi parhau'n elfen hanfodol o rôl SHCY. Bu'r prif ffocws ar weithio mewn partneriaeth ag ysgolion i ymdrin â digwyddiadau gan ddefnyddio polisi **Trechu Troseddau mewn Ysgolion** a **diogelu** plant a phobl ifanc.

## Plismona Cefnogol: Cymru a fesul Ardal yr Heddlu

| Digwyddiadau Trechu Troseddau mewn Ysgolion: | Cymru | DP | GW | GC | DC |
|---|---|---|---|---|---|
| | 5,572 | 693 | 1,137 | 1,305 | 2,437 |

Mae'r SHCY wedi defnyddio **Arfer Adferol** i ymdrin â niwed mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd mewn ysgolion.

**ASTUDIAETH ACHOS 15** *"Gofynnwyd i mi gynnal cyfarfod gyda dwy set o rieni a'u meibion a oedd yn ymladd dros dîm pêl-droed yr oedd y ddau ohonynt yn aelod ohono. Cefais gyfarfod â rhieni a phenderfynwyd cynnal Cyfarfod Adferol gyda'r bechgyn. Roedd y cyfarfod yn llwyddiant a chytunodd y bechgyn ar y canlyniadau. Rwy'n parhau i fonitro'r sefyllfa, ond ni fu unrhyw broblemau pellach rhwng y bechgyn na'u teuluoedd."*

| Sesiynau Arfer Adferol/Cyfiawnder Adferol: | Cymru | DP | GW | GC | DC |
|---|---|---|---|---|---|
| | 1,996 | 280 | 535 | 897 | 284 |

Fel Swyddogion yr Heddlu â gwarant, bu sicrhau diogelwch y gymuned yn swyddogaeth bwysig.

| Cofnodion Cuddwybodaeth: | Cymru | DP | GW | GC | DC |
|---|---|---|---|---|---|
| | 747 | 277 | 74 | 184 | 212 |

Mae SHCY **yn chwarae rhan weithredol yn eu Timau Cymdogaeth** ac o fewn teulu ehangach yr heddlu, ac yn aml yn gwneud cyfraniad unigryw yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u cydberthnasau â'r plant a'r bobl ifanc maent wedi gweithio gyda nhw yn eu hysgolion.

**ASTUDIAETH ACHOS 16** *"Roedd grŵp o ferched blwyddyn 10 yn peri pryder i mi. Codais fy mhryderon gyda thimau arweinyddiaeth yr ysgol, a phartneriaid mewn cyfarfodydd megis MAPI a TASKING a rhoddais adborth i'r NPT. Gofynnwyd i un o Swyddogion yr Heddlu a oedd yn arbenigo mewn Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant i weithio gyda'r merched.*

*Roedd y disgyblion hyn ar y ffin o ran dod yn ddioddefwyr Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, ond yn dilyn ymyriadau amlasiantaeth, cafwyd gwelliant amlwg yn eu hymddygiad, yn yr ysgol ac o amgylch yr ysgol; ac mae'r staff wedi rhoi gwybod i mi eu bod yn teimlo'n llawer mwy cyfforddus. Mae'r merched bellach yn gwybod ble i fynd i gael help a chymorth ac yn gwybod fy mod ar gael iddynt unrhyw bryd."*

Nodwyd enghraifft o'r ffordd y mae'r gydberthynas unigryw hon wedi **cyfrannu'n uniongyrchol at weithgareddau plismona** mewn tref yng Ngogledd Cymru…

**ASTUDIAETH ACHOS 17** *"Roedd merch 14 oed agored i niwed wedi bod yn absennol o'r ysgol yn rheolaidd ac yn ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol lefel isel yn y gymuned, gan gynnwys cael ei dal o dan ddylanwad alcohol ac yn ymladd â'i chyfoedion. Roedd ei hamgylchiadau cartref yn heriol ac roedd wedi cael ei pharatoi at bwrpas rhyw gan ddynion hŷn. Roedd yn rhan o Ymgyrch LENTEN ond nid oedd yn fodlon cydweithredu â'r heddlu o'r tîm ac nid oedd yn barod i weithredu fel tyst ar gyfer yr ymchwiliad.*

*Gwnaeth y SHCY waith un-i-un gyda'r ferch dros gyfnod o sawl wythnos gan drafod amrywiol bynciau, gan gynnwys: diogelwch ar y rhyngrwyd, alcohol, cyffuriau, cydsyniad rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.*

*Daeth y ferch i'r ysgol ar gyfer pob sesiwn a dangosodd ddiddordeb ym mhob pwnc a gyflwynwyd gan y SHCY.*

*Meithriniodd gydberthynas o ymddiriedaeth â'r SHCY ac o ganlyniad i'r ymddiriedaeth honno, teimlodd y gallai siarad â swyddogion yr heddlu o Ymgyrch LENTEN. Recordiwyd datganiad tyst ac o ganlyniad, dygwyd achos yn erbyn yr unigolyn dan sylw."*

Mae'r **cydberthnasau a gaiff eu meithrin â'r bobl ifanc mewn ysgolion o fudd i'r SHCY**. Maent yn eu galluogi i gael effaith gadarnhaol ar y bobl ifanc y tu allan i oriau ysgol ac yn cyfrannu at blismona yn y gymdogaeth leol mewn modd cadarnhaol



# Effaith a dylanwad

O ganlyniad i weithgareddau'r Rhaglen, mae'r plant a'r bobl ifanc wedi meithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau ac wedi newid eu hagweddau a'u hymddygiad.

"Cyflwynodd y wers y term paratoi at bwrpas rhyw i ni. Nid oedd llawer ohonom yn ymwybodol ohono.

Paid â'u cyffwrdd, rho wybod!

Nid oes y fath beth â therfyn diogel ar gyfer alcohol.

Caiff pwysigrwydd cyfeillgarwch ei addysgu mewn llawer o'r gwersi. Mae hynny'n beth da.

Mae'r gwersi yn drylwyr iawn ac yn ein hannog i wneud y pethau iawn.

Nid wyf yn hoffi sôn wrth yr athro pan fydd pethau drwg yn digwydd yn yr ysgol. Gallaf sôn wrth Swyddog yr Heddlu.

Mae'r gwersi yn datblygu empathi tuag at y dioddefwr. Maent yn gwneud i ni ystyried ein hymddygiad ein hunain tuag at bobl eraill. Rydym yn llai tebygol o gyflawni'r gweithredoedd hyn.

Rydym yn gwybod at bwy y gallwn droi os bydd angen help arnom – ein hathrawon, oedolyn rydym yn ymddiried ynddo, ein Swyddog yr Heddlu, Childline.

Mae'r wers diogelwch ar-lein SMART wedi dangos i mi sut i fod yn ddiogel ar-lein

Rwyf bellach yn deall beth yw secstio.

Mae'r gwersi yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o ddefnyddio cyffuriau ac na ddylem wneud hynny – gallwn ddewis peidio â chymryd cyffuriau.

Gallwn... adnabod yr arwyddion pan fo rhywbeth o'i le (gwers Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant)

Rwyf wedi dysgu y dylwn ddweud wrth rywun a bod yn hyderus o hyd.

Mae'r gwersi yn gwneud i mi deimlo'n ddiogel gan fy mod yn gwybod beth i'w wneud yn y dyfodol.

Rydym yn teimlo'n fwy diogel ac yn fwy hyderus i wybod beth i'w wneud.

Dylech bob amser ofyn cwestiynau a bod yn ofalus.

Byddaf yn ymddwyn yn wahanol y tu allan i'r ysgol.

Y wers Edrychwch Pwy sy'n Siarad – gwnaeth i bobl feddwl am rymuso eu ffrindiau i wneud y dewis cywir.

Byddem yn llai tebygol o wneud pethau gwirion.

Mae fy agwedd tuag at alcohol wedi newid.

Mae fy safbwyntiau wedi newid... Dwi ddim mor nerfus ac rwy'n fwy cyfforddus yn cyfarfod â swyddogion yr heddlu allan yn y gymuned.

Mae'r gwersi ar fwlio wedi newid ein safbwyntiau – mae'r oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn bwysig.

Mae'n bosibl y byddem yn herio achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond byddem yn bendant yn rhoi gwybod amdanynt.

Mae'r gwersi wedi ein grymuso i ddatblygu strategaethau i ymdopi â sefyllfaoedd heriol yn y dyfodol e.e. o ran alcohol a chyffuriau. Mae bod yn ymwybodol o ganlyniadau gweithredoedd yn ein grymuso i newid sut y byddem yn ymateb yn y dyfodol."

Roedd gan y dysgwyr safbwyntiau cryf am werth y SHCY yn cyflwyno gwersi ac yn gweithio yn eu hysgolion.

Mae'n bwysig bod yr un swyddog yn dod bob tro. Rydych yn dod i'w adnabod

...yn dod gan SHCY – maent yn gwybod mwy oherwydd eu profiad.

Mae'n beth da iawn bod yr heddlu yn dod i'r ysgol – rydym yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn y maent yn ei wneud ac mae hynny'n bwysig.

Rydych yn gwybod os yw'n dod gan yr heddlu ei fod yn gywir. Caiff ei egluro mewn ffordd gymhellol, na fyddai athro yn ei wneud yr un fath.

Os byddwn yn gwneud camgymeriadau, rhaid i ni wynebu'r canlyniadau a gall PC John ymdrin â hyn.

Mae pobl yn dod i arfer â'r heddlu yn yr ysgol ac yn gwybod y gellir mynd atynt.

Rwy'n fwy tebygol o godi ar fy nhraed a gwrando ar un o Swyddogion yr Heddlu yn sôn am ddiogelwch. Ni allai'r athrawon gyflwyno'r gwersi hyn.

Mae'r patrwm gyda'r gwersi yn creu argraff barhaol. Rydym yn fwy tebygol o wrando ar un o Swyddogion yr Heddlu

Roedd y plant yn gwrando mwy ar Swyddog yr Heddlu Mae ganddynt fwy o barch tuag atynt nag athrawon.

Gallwn bob amser siarad â'r SHCY fel y pwynt cyswllt cyntaf.

Rydych yn gwybod ei fod yn mynd i ddigwydd (ymdrin â phroblem) drwy fynd at Swyddog yr Heddlu – yn enwedig o ran y gwasanaeth cyswllt a ddarperir i'r ysgol.

Gallant sôn am eu profiadau a'r sefyllfaoedd y maent wedi ymdrin â nhw. Ni all yr athrawon wneud hyn onid ydynt wedi bod yn y sefyllfaoedd eu hunain

Weithiau mae angen rhywun mwy na'r athrawon er mwyn gwneud rhywbeth am y peth. Felly credaf ei bod yn bwysig bod un o Swyddogion yr Heddlu yno rhag ofn bod ei angen arnom.

Roedd y dysgwyr hefyd yn awyddus i drosglwyddo'r negeseuon i'w rhieni ac eraill .

Rwyf bob amser yn mynd adref ac yn trafod y wers gyda'm rhieni.

Mae angen i ni ddweud wrth eraill am yr hyn rydym wedi'i ddysgu.

Rydym yn dysgu am ganlyniadau troseddu.

Rwy'n mynd â'r neges adref ac yn sôn wrth fy rhieni am y wers rydym wedi'i chael yn yr ysgol. Mae ein rhieni o'r farn ei bod yn syniad da bod un o swyddogion yr heddlu yn dod i'r ysgol.



# Ymgysylltu

Gwnaethom ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanfair-ym-Muallt ym mis Mai a'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst.

## Roedd SHCY, staff y Rhaglen, tîm RCCU ac eraill o Dimau Plismona yn y Gymdogaeth yn gyfrifol am redeg y stondinau lliwgar.









SHCY Evans a'i ffrindiau!



Prif Gwnstabl Jukes gyda PC Jones Evans o'r RCCU yn cael hwyl yn yr Eisteddfod!

Daeth miloedd o blant a'u teuluoedd i weld y stondinau, gan holi cwestiynau, tynnu hun-luniau â Tarian ein masgot ac yng nghar yr heddlu a mwynhau dysgu am blismona a Rhaglen SchoolBeat.

Daeth cyfanswm o dros 160,000 o ymwelwyr i'r Eisteddfod Genedlaethol unigryw hon ym Mae Caerdydd.



**Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i:**

- Hyrwyddo gwaith Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan
- Codi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd cenedlaethol megis Wythnos Gwrth-fwlio, Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, Diwrnod Rhuban Wen, Diwrnod Ymwybyddiaeth o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM), Be a Nice Guy, Tanau Glaswellt, Diwrnod Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ac Wythnos Ymwybyddiaeth o Alcohol, Diwrnod Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant.
- Rhannu gweithgareddau dyddiol Rheolwyr y Rhaglen a'r SHCY
- Cyflwyno negeseuon allweddol am ddiogelwch a diogelu
- Cefnogi a hyrwyddo gwaith ein partneriaid



Cynhaliwyd prosiect gweithgareddau haf 2018 **Cymell ein Pobl Ifanc (MOY)** yng Ngwent eleni. Cymerodd 118 o bobl ifanc o bob rhan o Went ran mewn prosiect gweithgareddau cyffrous a heriol a gynhaliwyd dros gyfnod o wythnos, wedi'i gefnogi gan bartneriaid o'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Dewiswyd y plant gan ysgolion i gymryd rhan am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys plant a oedd wedi ymddieithrio rhag eu cyfoedion, plant yr oedd angen meithrin eu hyder ac yr oedd angen iddynt ailintegreiddio i gymuned yr ysgol.

Rhoddwyd cyfleoedd i'r cyfranogwyr ddysgu a meithrin cydberthnasau â'i gilydd, â swyddogion yr heddlu ac â'r aelodau eraill o staff a oedd yn rhedeg yr wythnos. Roedd llawer ohonynt yn teimlo'n ansicr gan nad oeddent wedi gwneud unrhyw beth tebyg o'r blaen, ond aethant ati'n frwd i ymateb i'r heriau corfforol ac emosiynol newydd. E.e. goresgyn ofn dŵr, uchder ac ymgysylltu ag eraill.

Dywedodd un o'r bobl ifanc,

***"Dyma'r wythnos orau erioed! Os byddaf yn byhafio, ga i ddychwelyd y flwyddyn nesaf?"***

Dywedodd ei fam-gu,

***"Daeth gartref yn llawn cyffro wrth sôn am weithgareddau'r dydd, ac roedd wedi blino gormod i fynd allan gyda'r nos - a helpodd i'w gadw allan o ddrygioni!"***

Soniodd gweithwyr ieuenctid hefyd am yr effeithiau cadarnhaol a oedd yn gysylltiedig â'r ffaith bod y grwpiau yn cydweithio fel tîm, a oedd yn ei dro yn helpu i feithrin hyder.








## Cyflawni Blaenoriaethau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Rydym wedi ymateb i'r blaenoriaethau a nodwyd gan y pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Mae'r pedwar Cynllun Lleihau Troseddau yn canolbwyntio ar themâu cyffredin megis diogelu, atal troseddau, mynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a gweithio i ddiogelu unigolion agored i niwed.

Cytunodd y Comisiynwyr y dylid ariannu gwers newydd i blant blwyddyn 6 a fydd ar gael i ysgolion yn ystod 2018-2019. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r wers a bydd yn cyfrannu at waith i ddatblygu troell ddysgu am **Gam-drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant** ac mae'n enghraifft o gryfder y trefniadau gweithio mewn partneriaeth rydym yn eu mwynhau.

## Sut Rydym yn Cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Gweithredwyd 2016)

Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan wedi cyfrannu at nifer o flaenoriaethau a restrwyd gan y Comisiynydd fel y nodir yn y tabl isod:

| Y Nodau Llesiant | Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan - Enghreifftiau o weithgareddau |
|---|---|
| **Hyrwyddo iechyd a lles da i bawb** | Mae gwersi am gamddefnyddio sylweddau a diogelwch/diogelu wedi darparu gwybodaeth am risgiau a chanlyniadau, strategaethau a sut i gael gafael ar help a chymorth. Rhoddwyd hyfforddiant iechyd meddwl i SHCY. Cyhoeddwyd adnoddau. |
| **Meithrin cymunedau iachach a gwell amgylcheddau** | Cymunedau mwy diogel drwy wersi a gweithgareddau. Canlyniadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y gymuned a sut y gellir mynd i'r afael ag achosion ohono. Addysg mewn perthynas â Llinellau Cyffuriau.<br><br>Gweithio'n agos â Thimau Plismona yn y Gymdogaeth. Mannau mwy diogel i bawb. Partneriaeth â Thaclo'r Tacle. |
| **Helpu pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial** | Mae'r gwersi wedi annog dysgwyr i wneud penderfyniadau cadarnhaol. Eglurwyd canlyniadau torri'r gyfraith er mwyn i ddysgwyr allu gwneud dewisiadau hyddysg. |
| **Sicrhau bod pawb yn meddu ar y sgiliau priodol ar gyfer byd cyfnewidiol** | Rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o wersi Diogelwch ar y Rhyngrwyd. Anogwyd dysgwyr i feithrin eu sgiliau ac i ddatblygu gwydnwch. Datblygwyd adnodd seiber droseddu a llwybr atgyfeirio arloesol er mwyn hysbysu dysgwyr a'u hannog i ddefnyddio eu sgiliau seiber mewn modd cadarnhaol. |
| **Iaith Gymraeg ffyniannus** | Mae ein holl adnoddau ar gael yn Gymraeg. Mae SHCY wedi gweithio ym mhob ysgol Gymraeg yng Nghymru.<br><br>Rydym wedi hyrwyddo'r Gymraeg mewn Eisteddfodau a digwyddiadau Cenedlaethol a Rhanbarthol pwysig eraill e.e. Sioe Frenhinol Cymru. |



# Gweithio gyda'n Partneriaid

Datblygwyd ac atgyfnerthwyd y trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth eleni. Rydym wedi gweithio gyda sawl sefydliad yn genedlaethol ac yn rhanbarthol ym mhob un o ardaloedd yr heddlu. Mae effaith gadarnhaol cydweithio yn amlwg:

***"Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan wedi rhoi cymorth gwerthfawr iawn wrth hyrwyddo ein cynllun i bobl ifanc, Fearless, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth i annog pobl ifanc i roi gwybod am droseddau. Mae'r cydgysylltydd cenedlaethol yn darparu safbwynt unigryw ar Bwyllgor Cenedlaethol Taclo'r Tacle Cymru er mwyn helpu i lywio ein cyfraniad at waith i atal troseddau ac addysgu."***

Ella Rabaiotti, Rheolwr Cenedlaethol, Ymddiriedolaeth Taclo'r Tacle

***"Mae swyddogion SchoolBeat yng Nghymru yn cynnig cyfle unigryw i ni ddiogelu'r rheini sy'n fwyaf agored i gael eu radicaleiddio. Mae'r bygythiad sy'n gysylltiedig â therfysgaeth o fewn cymunedau yng Nghymru yn fygythiad gwirioneddol. Mae achos Lloyd Gunton yn enghraifft o hyn. Bydd sut y bydd yr heddlu yn ymgysylltu â phlant yn dylanwadu ar ba fygythiadau y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol. Mae cyfleoedd gan swyddogion SchoolBeat i ymgysylltu â phlant a'u haddysgu er mwyn sicrhau na fyddant yn edrych ar ddeunydd eithafol treisgar ar-lein, eu bod yn deall sut i roi gwybod am bryderon ac y gallant amddiffyn eu hunain rhag y rheini a all fod am gamfanteisio arnynt. Mewn partneriaeth ag Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru a gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, bydd swyddogion SchoolBeat yn cyflwyno gwers i blant ym mhob ysgol yng Nghymru er mwyn helpu i'w diogelu rhag terfysgaeth ac er mwyn sicrhau ein bod yn cadw ein cymunedau yng Nghymru yn ddiogel."***

C I A Hayes, Uned Gwrthderfysgaeth Cymru. 2017

***"Rydym yn gwerthfawrogi cefnogaeth Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn fawr, a fu'n hanfodol wrth ehangu cyrhaeddiad Llinell Gymorth MEIC i blant a phobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru. Mae Swyddogion yr Heddlu yn hybu ac yn hyrwyddo MEIC ac felly mae mwy o blant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r gwasanaeth ac yn ei ddefnyddio ac felly mae mwy ohonynt yn cael yr help sydd ei angen arnynt."***

Marco Gil Cervantes, Prif Weithredwr, ProMo-Cymru

***"Mae NSPCC Cymru yn gwerthfawrogi ein cydberthynas gydweithredol effeithiol â Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn defnyddio adnoddau'r NSPCC yn rheolaidd yn ystod y sesiynau a gyflwynir a helpodd i ddatblygu cynnwys Cymraeg ar gyfer yr adnoddau hyn. Rydym wrthi'n cydgynhyrchu taflen i bobl ifanc yn amlinellu'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud am secstio. Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn aelod gwerthfawr o WISP ac mae Faith McCready yn Ddirprwy Gadeirydd ar y grŵp."***

Cecile Gwilym, Uwch Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC

***"Mae rôl Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan wrth ymdrin â phryderon allweddol yn hollbwysig i ysgolion ac i blant yng Nghymru. Mae'r swyddogion yn darparu gwasanaeth addysgol cyfeillgar a chalonogol i'n pobl ifanc - gan ymdrin â phryderon hanfodol, o gamddefnyddio sylweddau i ddiogelwch ar-lein."***

Dr. Sangeet Bhullar, Sylfaenydd, WISE KIDS

***"Rydym yn ddiolchgar iawn i Heddlu De Cymru, yn enwedig y swyddogion sy'n rhan o raglen yr heddlu i ysgolion sydd wedi darparu hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth o ansawdd rheolaidd i staff a phobl ifanc mewn perthynas â nifer o feysydd pwnc allweddol, er enghraifft, Secstio, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Chamddefnyddio Sylweddau. Mae'r ymyriad hwn wedi ein galluogi i weithio mewn partneriaeth, nid yn unig i ymdrin â'r materion sy'n wynebu pobl ifanc leol ar hyn o bryd, ond hefyd i ddiwallu anghenion yr adran/ymarferwyr sy'n rhaeadru'r negeseuon atal i'r bobl ifanc. Diolch am eich cefnogaeth."***



Corinne Fry, Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid, Castell-Nedd Port Talbot

*"Mae'r tîm Diogelwch Cymunedol wir yn gwerthfawrogi gwaith y SHCY o ran diogelu pobl ifanc a'u llesiant. Ni ellir pwysleisio pwysigrwydd y gwaith y maent yn ei wneud yn meithrin cydberthnasau a chyflwyno setiau sensitif a phriodol er mwyn galluogi'r bobl ifanc i wneud dewisiadau hyddysg ddigon. Mae'r tîm Diogelwch Cymunedol yn deall ac yn hyrwyddo Gwaith Atal ac Ymyriadau Cynnar er mwyn meithrin dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o risgiau a chanlyniadau."*

Sian Morris, Diogelwch Cymunedol, Castell-nedd Port Talbot

*"Mae'r Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i Ysgol Bae Baglan gan siarad â'r disgyblion am amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig â throseddu. Mae'r gwersi hyn yn helpu i hysbysu'r disgyblion am bethau megis perygl cyffuriau anghyfreithlon neu'r cyfreithiau sy'n gysylltiedig â rhyw a pherthnasoedd. Ochr yn ochr â'n rhaglen ABCh yn yr ysgol, maent yn helpu i atal disgyblion rhag dechrau ymddwyn mewn ffordd beryglus. Mae'r wybodaeth fanwl sydd gan Swyddogion gweithredol yr Heddlu am y gyfraith yn hanfodol, ac mae'n bosibl na fyddai athro yn meddu ar y wybodaeth honno. Yn fy marn i, mewn rhai achosion, mae addysgu'r disgyblion yn helpu i atal troseddau rhag cael eu cyflawni, er enghraifft, secstio. Mae'r gwasanaeth Cyswllt Ysgolion yn golygu y gellir ymgymryd â gwaith paratoi, cynllunio a monitro effeithiol. Mae'r amser y mae'r SHCY yn ei neilltuo i'w dreulio mewn gwersi yn ystyried materion gyda'r disgyblion yn arbennig o werthfawr. Nid yw dim ond cyflwyno ffeithiau i'r disgyblion yn ystod gwasanaethau yn cael yr un effaith o ran newid ymddygiad.*

*Mae'r SHCY hefyd yn meithrin cydberthynas â'r ysgol, y staff a'r disgyblion sy'n golygu y gellir integreiddio gweithgareddau atal troseddau i mewn i'r cwricwlwm."*

Miss A Stead, Cydgysylltydd ABCh, Ysgol Uwchradd

*"Unwaith eto, bu'n fraint i Ysgol Gynradd Penllergaer gymryd rhan yn Rhaglen Gyswllt Ysgolion yr Heddlu. Mae ein Swyddog yr Heddlu penodedig yn adnodd gwerthfawr o ran cefnogi cwricwlwm personol, cymdeithasol ac emosiynol ein hysgol. Mae'r gwersi a gyflwynir, sy'n briodol ar gyfer oedran y plant, yn ychwanegu dimensiwn newydd at y dysgu. Caiff ein disgyblion eu haddysgu am ddefnyddio a chamddefnyddio sylweddau, cyffwrdd mewn modd priodol a chadw'n ddiogel yn yr amgylchedd ac ar-lein. Mae'r disgyblion bob amser yn ymateb yn gadarnhaol i ymwelwyr â'r ystafell ddosbarth ac mae cyfarfod ag un o Swyddogion yr Heddlu mewn lifrai mewn rôl gymdeithasol, addysgiadol a chyfeillgar yn meithrin cydberthnasau da rhwng yr heddlu a'r bobl ifanc. Mae hyn yn arwain at ostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae'n cau'r bwlch rhwng y cenedlaethau ac yn gwella dyheadau'r disgyblion o ran y byd gwaith.*


*O ganlyniad i'r broses hon, rydym wedi gweld bod gan y disgyblion fwy o barch tuag atynt eu hunain, tuag at eraill a thuag at yr amgylchedd. Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn helpu ysgolion i sicrhau bod gan ddysgwyr werthoedd cadarn er mwyn iddynt ddatblygu'n ddinasyddion iach a hyderus a all wneud cyfraniad gweithredol i gymdeithas.*

*Mae'r staff a'r disgyblion yn defnyddio gwefan SchoolBeat yn rheolaidd er mwyn cael newyddion, cyngor a syniadau."*

Jayne Woolcock, Pennaeth, Ysgol Gynradd

*"Rydym yn gwerthfawrogi eich rôl yn ein hysgol fel ein SHCY yn fawr. Mae'r sesiynau a gyflwynir gennych yn llwyddo i ymgysylltu'r disgyblion a gall disgyblion o bob gallu gymryd rhan yn y sesiynau cydweithredol a rhyngweithiol. Mae'r disgyblion sy'n mynychu ein hysgol yn aml wedi cael eu gwahardd sawl gwaith, maent yn agored i niwed – maent fel arfer yn dod o ardaloedd difreintiedig ac yn aml, bydd yr heddlu wedi bod yn rhan o'u bywydau gartref. Mae'n bwysig iddynt gael cyfleoedd i ryngweithio â'r heddlu mewn ffordd gadarnhaol. Diolch am eich gwaith amhrisiadwy yn ein hysgol."*

Rhiannon Evans, Cydgysylltydd ABCh, UCD, Y Barri



**Rydym wedi cefnogi nifer o ddiwrnodau ymwybyddiaeth cenedlaethol. Mae SHCY wedi cyflwyno gwersi a gwasanaethau mewn perthynas â'r ymgyrchoedd cenedlaethol penodol megis Wythnos Gwrth-fwlio, Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, Diwrnod Rhuban Wen, wythnosau Diogelu a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac ati.**

**Gwnaethom wrando ar blant a phobl ifanc** a chynnal gwerthusiad mewnol o'r gwasanaeth a ddarperir gennym.

**Gwerthusiad Mewnol o Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan Mehefin 2018**

**Crynodeb** Nod yr adroddiad hwn yw nodi'r effaith y mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn ei chael ar y disgyblion a defnyddwyr eraill y gwasanaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar gofnodi llais y plentyn neu'r dysgwr. Casglwyd data o ysgolion ledled Cymru a oedd yn cynnwys ysgolion Uwchradd, ysgolion Cynradd, ysgolion Cyfrwng Cymraeg, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion Arbennig. Defnyddiwyd dulliau meintiol ac ansoddol i gasglu'r data.

Nododd y mwyafrif helaeth o ddysgwyr a staff eu bod yn gwerthfawrogi Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan a bod Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) yn darparu gwasanaeth cofleidiol pwysig a oedd yn cynnwys addysg ataliol a gweithgareddau diogelu hanfodol.

Nododd dysgwyr a staff gynnydd sylweddol yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gyfraith a gwybodaeth allweddol i'w galluogi i gadw'n ddiogel. Gwnaethant hefyd nodi newid yn eu hagwedd a'u hymddygiad a fyddai'n effeithio arnynt yn y dyfodol.

Nododd dysgwyr a staff fod ganddynt fwy o hyder ac ymddiriedaeth yn yr Heddlu.

Down i'r casgliad bod plant a phobl ifanc yn parhau i gael budd o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Mae'n wasanaeth hanfodol i ysgolion yng Nghymru.

# Ac yn olaf

Mae ein holl gyflawniadau yn dibynnu ar y bartneriaeth ardderchog y mae'n fraint gennym fod yn rhan ohoni ag ysgolion yng Nghymru sy'n croesawu'r SHCY ac yn rhoi cyfleoedd iddynt weithio gyda'r dysgwyr y maent yn gofalu amdanynt. Mae teulu ehangach yr heddlu hefyd yn bartneriaid allweddol yn y gwasanaeth unigryw a gynigir gennym.

***"Mae uwch swyddogion wedi nodi'r rhan allweddol y gall swyddogion sy'n rhan o'r rhwydwaith ac y gellir ymddiried ynddynt ei chwarae nid yn unig mewn perthynas ag atal ond hefyd mewn perthynas â materion eraill hynod gyfoes – Llinellau Cyffuriau, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, troseddau'n ymwneud â chyllyll ac ati."***

M Thomas, ROCU



Caiff y SHCY eu harwain a'u rheoli gan dîm ymroddedig o addysgwyr ym mhob heddlu. Mae'r Cydgysylltwyr/Rheolwyr hyn wedi dangos eu hymrwymiad i weledigaeth a nodau'r Rhaglen mewn sawl ffordd. Mae Rheolwr Technegol y We yn hollbwysig wrth sicrhau bod y Rhaglen yn rhedeg yn ddidrafferth, gan sicrhau bod y sail adnoddau eang ar gael i'r SHCY, dysgwyr, rhieni ac athrawon.

Ni fyddai gweithgareddau'r rhaglen yn bosibl heb yr unigolion ymroddedig hyn.

## Heddlu'n diogelu plant Cymru trwy addysg atal troseddu

